


Signly

NetworkRail

# Arweiniad ar ddefnyddio croesfannau rheilffordd

## Sicrhau fod pawb yn croesi'n ddiogel



Ar gyfer BSL a fersiynau clywadwy, lawrlwythwch 'Signly Network Rail' yn rhad ac am ddim o'r Apple App Store neu Google Play ac anelwch eich dyfais at y poster hwn.

# Cynnwys


**Yr arweiniad hwn a'n mesurau diogelwch** 04

- Beth yw cynnwys yr arweiniad 06
- Rydym yma ar eich cyfer 07
- Croesfannau Rheilffordd - y pethau sylfaenol 08

**Mesurau diogelwch ar gyfer pobl gyda nam ar eu golwg** 12

**Mesurau diogelwch ar gyfer pobl gyda nam ar eu clyw** 18

**Mesurau diogelwch ar gyfer pobl gydag anawsterau symud** 24

# Nodyn am yr arweiniad hwn **a’n mesurau diogelwch**



Datblygwyd y llyfryn hwn yn arbennig ar gyfer y rhai hynny a all wynebu heriau ychwanegol wrth ddefnyddio croesfannau rheilffordd. Mae hynny’n cynnwys unigolion gyda nam ar eu golwg, nam ar eu clyw ac anawsterau symud.

## Rydym wedi ymrwymo i wneud croesfannau rheilffordd yn fwy diogel a helpu pobl i’w defnyddio’n gywir

Dyna paham ein bod yn cyflogi dros 100 o reolwyr neilltuol ar gyfer croesfannau rheilffordd ar draws Prydain i reoli diogelwch o ddydd i ddydd ar ein croesfannau rheilffordd.


Fe allwch ganfod goleuadau traffig, rhybuddion clywadwy a bariau hefyd ar rai croesfannau rheilffordd. Er hynny efallai na fydd mesurau gwarchod bob amser sy’n addas ar gyfer rhai gyda nam ar eu golwg, nam ar eu clyw neu anawsterau symud. Bydd y rhan nesaf yn egluro hyn yn fwy manwl.

Hefyd gall ein Llinell Gymorth Genedlaethol ddarparu mwy o wybodaeth a chymorth.

## Beth yw cynnwys yr arweiniad

- Gwybodaeth am fesurau diogelwch Network Rail
- Cyngor diogelwch elfennol ar gyfer defnyddwyr croesfannau rheilffordd
- Rhybuddion ac addasiadau perthnasol ar gyfer:
  - Pobl gyda nam ar eu golwg
  - Pobl gyda nam ar eu clyw
  - Pobl gydag anawsterau symud

Hoffem ddiolch i'r sefydliadau canlynol am eu mewnbwn - Action on Hearing Loss, Cŵn Tywys, Y Sefydliad Brenhinol ar gyfer y Byddar, Scope a'r Panel 'Built Environment Accessibility'.



## Rydym yma ar eich cyfer

Ffoniwch ein Llinell Gymorth Genedlaethol am fwy o wybodaeth a chyngor ar ddefnyddio croesfannau rheilffordd.

**03457 11 41 41**


Deialwch 18001 cyn y rhif er mwyn defnyddio TypeTalk.

E-bostiwch neu siaradwch gyda ni am fwy o gymorth ar: **networkrail.co.uk/contact**

# Croesfannau Rheilffordd - y pethau sylfaenol

## Nesáu at groesfan reilffordd

- Canolbwyntiwch a byddwch yn wyliadwrus pan fyddwch ar neu yn nesáu at groesfan reilffordd
- Cofiwch fod yn ofalus ger croesfannau rheilffordd bob amser a byddwch yn barod i aros
- Byddwch yn ymwybodol o unrhyw rybuddion clywadwy, rhybuddion gweledol neu rybuddion y gellir eu teimlo a all fod yno




## Croesi croesfannau rheilffordd

- Os oes gan y groesfan rybuddion sydd yn dechrau wrth ichi nesáu ati, peidiwch â chychwyn croesi
- Byddwch yn amyneddgar. Arhoswch nes i'r trên basio. Nid oes amser aros penodol a gall cyflymder trefnau ac amserlenni amrywio'n fawr
- Os bydd rhybudd yn cychwyn tra eich bod ar groesfan reilffordd, peidiwch a chyffroi. Croeswch cyn gynted ag y gallwch

## Croesfannau Rheilffordd - y pethau sylfaenol

- Cymrwch eich amser cyn croesi er mwyn sicrhau nad oes trên yn dod. Byddwch yn ymwybodol fod trenau'n gallu dod o'r ddau gyfeiriad ac y gallasai ail drên fod yn dod hefyd
- Croeswch mor gyflym ag y gallwch pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, gan gadw plant yn agos atoch a chŵn ar dennyn



Mae sawl math o groesfan reilffordd ar draws y rhwydwaith trenau ym Mhrydain. Mae'r math o groesfan a'r drefn ddiogelu yn dibynnu a yw'r hawliau tramwyo'n rhai preifat neu gyhoeddus, y math a'r nifer o ddefnyddwyr, pa mor gyson y bydd trenau'n pasio, cyflymder y trenau a'r sefyllfa ddaearyddol yno. Er enghraifft, nid oes gan bob croesfan yng nghefn gwlad fariau gwarchod arnynt.

Mae'r rhannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth am y rhybuddion a all fod wedi eu rhoi ar groesfannau.

Gallwch hefyd gysylltu â'n Llinell Gymorth Genedlaethol am gyngor.


# Mesurau diogelwch ar gyfer rhai gyda **nam ar eu golwg**

## Mesurau diogelwch ar gyfer rhai gyda nam ar eu golwg

### Rhybuddion fod trenau'n nesáu

#### Rhybudd clywadwy neu seirenau

- Mae gan rai croesfannau rybuddion clywadwy neu seirenau
- Mae gennym amrywiaeth o larymau clywadwy sydd yn dod i rym pan fo trên yn nesáu. Mae rhai'n swnio fel seirenau, eraill fel cyrn trenau ac eraill lle ceir rhybudd geiriol
- Mae'r math o larymau'n amrywio yn dibynnu ar y math o groesfan reilffordd a'i lleoliad




- Gall larwm fod yn barhaus tan i'r trên basio, neu ddod i ben yn syth wedi i'r bariau gael eu gostwng
- Peidiwch â chroesi os bydd sŵn neu neges yn eich rhybuddio. **Arhoswch tan fod y trên neu'r trenau wedi pasio a pheidiwch â chroesi tan ei bod yn ddiogel ichi wneud hynny.**

## Mesurau diogelwch ar gyfer rhai gyda nam ar eu golwg

### Bariau

- Fel rheol ceir bariau ar ffyrdd cyhoeddus a byddant yn gostwng pan fydd trên yn nesáu
- Bydd y math o fariau sydd yno'n dibynnu ar y math o groesfan reilffordd
- Mae gan rai croesfannau rheilffordd hanner bariau, lle bydd y bariau'n gostwng ar yr ochr chwith er mwyn rhwystro'r traffig
- Mae'r rhybuddion clywadwy yno wrth i'r bariau ostwng fel rhybudd ichi aros a pheidio mynd ar y groesfan reilffordd



- Wedi i'r bariau godi'n llawn a phan fydd y llwybr o'ch blaen yn glir, croeswch cyn gynted ag y gallwch

### Rhybuddion wrth ichi nesáu at groesfan reilffordd

Mae gan rai croesfannau balmant gyda theimlad gwahanol i'ch rhybuddio wrth ichi nesáu. Mae'r palmant yma fel rheol yn dilyn llwybr y ffordd ac yn marcio'r newid o'r llwybr i'r groesfan reilffordd. Felly arhoswch os teimlwch y newid dan draed ger croesfan er mwyn asesu'r sefyllfa.


# Mesurau diogelwch ar gyfer rhai gyda **nam ar eu clyw**


## Mesurau diogelwch ar gyfer rhai gyda nam ar eu clyw

**Rhybuddion fod trên yn nesáu**

### Goleuadau

- Bydd goleuadau fel rheol yn fflachio wrth i fariau gael eu gostwng
- Os oes goleuadau traffig ar groesfan reilffordd byddant yn dechrau fflachio'n oren ac yna fflachio'n goch pan fydd trên yn nesáu




- Os mai goleuadau aros o faint bach sydd yno, byddant yn goch pan fydd trên yn agosáu a gwyrdd pan fydd hi'n ddiogel i groesi
- Yn syth pan ddaw'r goleuadau ymlaen, dyma eich rhybudd i aros. Peidiwch â chroesi a chadwch yn glir o'r traciau. Arhoswch tu ôl i'r bariau neu'r giatiau sydd yno

**Peidiwch â chroesi tan i'r goleuadau ddiffodd a'r bariau godi.**

# Mesurau diogelwch ar gyfer rhai gyda nam ar y clyw

## Bariau

- Fel rheol ceir bariau ar ffyrdd cyhoeddus a byddant yn gostwng pan fydd trên yn nesáu
- Bydd y math o fariau sydd yno'n dibynnu ar y math o groesfan reilffordd
- Mae gan rai croesfannau rheilffordd hanner bariau, lle bydd y bariau'n gostwng ar yr ochr chwith er mwyn rhwystro'r traffig
- Mae'r rhybuddion gweledol yno wrth i'r bariau ostwng fel rhybudd ichi aros a pheidio mynd ar y groesfan reilffordd




- Wedi i'r bariau godi'n llawn a phan fydd y llwybr o'ch blaen yn glir, croeswch cyn gynted ag y gallwch

## Croesfannau rheilffordd preifat lle mae angen ffonio am ganiatâd i groesi

Gallwn ddarparu dolen glyw ar groesfannau rheilffordd preifat. Rhaid i ddefnyddwyr gael eu hawdurdodi gan Network Rail; gall ein rheolwr croesfannau rheilffordd roi mesurau diogelwch felly yn eu lle.

Gallwch hefyd gysylltu â'n Llinell Gymorth Genedlaethol am wybodaeth bellach. Mae ein manylion ar y dudalen gefn.






# Mesurau diogelwch ar gyfer pobl gydag **anawsterau symud**


# Mesurau diogelwch ar gyfer pobl gydag anawsterau symud

## Rhybuddion fod trenau'n nesáu

### Goleuadau

- Os oes goleuadau traffig ar groesfan reilffordd byddant yn dechrau fflachio'n oren ac yna fflachio'n goch pan fydd trên yn nesáu
- Os mai goleuadau aros o faint bach sydd yno, byddant yn goch pan fydd trên yn agosáu a gwyrdd pan fydd hi'n ddiogel i groesi



- Yn syth pan ddaw'r goleuadau ymlaen, hwn yw eich rhybudd i aros. Peidiwch â chroesi. Cadwch yn glir o'r traciau. Arhoswch tu ôl i'r bariau neu'r giatiau sydd yno
- Bydd rhybuddion clywadwy fel rheol ar yr un pryd â rhai gweledol wrth i'r bariau ostwng

**Peidiwch croesi tan i'r goleuadau ddiffodd a'r bariau godi.**

## Mesurau diogelwch ar gyfer pobl gydag anawsterau symud

### Rhybuddion clywadwy neu seirenau

- Mae gan rai croesfannau rybuddion clywadwy neu seirenau
- Mae gennym amrywiaeth o larymau clywadwy sydd yn dod i rym pan fo trên yn nesau. Mae rhai'n swnio fel seirenau, eraill fel cyrn trenau ac eraill lle ceir rhybudd geiriol
- Mae'r math o larymau'n amrywio, yn dibynnu ar y math o groesfan reilffordd a'i lleoliad
- Gall larwm fod yn barhaus tan i'r trên basio, neu ddod i ben yn syth wedi i'r bariau gael eu gostwng
- Peidiwch â chroesi os bydd sŵn neu neges yn eich rhybuddio. Arhoswch tan fod y trên neu'r trenau wedi pasio a pheidiwch â chroesi tan ei bod yn ddiogel ichi wneud hynny

### Bariau

- Fel rheol ceir bariau ar ffyrdd cyhoeddus a fydd yn gostwng pan fydd trên yn nesau
- Bydd y math o fariau sydd yno'n dibynnu ar y math o groesfan reilffordd. Mae gan rai croesfannau rheilffordd hanner bariau, lle bydd y bariau'n gostwng ar yr ochr chwith er mwyn rhwystro'r traffig
- Mae'r rhybuddion gweledol yno wrth i'r bariau ostwng fel rhybudd ichi aros a pheidio mynd ar y groesfan reilffordd
- Wedi i'r bariau godi'n llawn a phan fydd y llwybr o'ch blaen yn glir, croeswch cyn gynted ag y gallwch

## Mesurau diogelwch ar gyfer pobl gydag anawsterau symud

### Rhybuddion wrth ichi nesáu at groesfan reilffordd.

Mae gan rai croesfannau balmant gyda theimlad gwahanol i'ch rhybuddio wrth ichi nesáu. Mae'r palmant yma fel rheol yn dilyn llwybr y ffordd ac yn marcio'r newid o'r llwybr i'r groesfan reilffordd. Felly arhoswch os teimlwch y newid dan draed ger croesfan er mwyn asesu'r sefyllfa.

### Addasiadau i'r croesfannau rheilffordd

Rydym yn gwella ein croesfannau lle mae modd gwneud hynny. Mae hyn yn cynnwys sythu llwybrau, ychwanegu ffensiau tywys a gosod goleuadau ychwanegol.

### Ffyrdd gwahanol

Mae'n bosib nad croesfannau rheilffordd yw'r unig ffordd i groesi. Weithiau bydd pontydd neu lwybrau o dan y rheilffordd yn cynnig ffordd fwy diogel ichi.

NetworkRail

Am fwy o wybodaeth a chyngor ynghylch defnyddio croesfannau rheilffordd cysylltwch â'n Llinell Gymorth Genedlaethol.

# 03457 11 41 41

Deialwch 18001 cyn y rhif er mwyn defnyddio Type Talk.

Ebostiwch ni neu siaradwch gyda ni trwy ein linc cymorth byw:
**networkrail.co.uk/contact**



Gallwch hefyd gysylltu â'r Llinell Gymorth Genedlaethol am gopi o'r Arweiniad hwn mewn fformat gwahanol.